

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in English, and in other languages and formats on request.



Pride Caerffili – Pecyn Gwybodaeth yr Orymdaith

24 Mehefin 2023

Rydyn ni wedi cyffroi'n lân i'ch croesawu i ddigwyddiad agoriadol Pride Caerffili a fydd yn ddiwrnod bendigedig!

Byddwn yn cychwyn gyda'n Gorymdaith Pride Caerffili gyntaf erioed, a noddir gan Heddlu Gwent am 12pm o **Ysgol Gyfun Martin Sant, Hillside, Caerffili, CF83 1UW**.

O'r fan honno, byddwn ni'n mynd lawr drwy ganol y dref ac yn gorymdeithio'r Twyn, heibio Bandstand leuenctid Pride Caerffili, a noddir gan UNSAIN Caerffili.

Bydd rhan olaf ein Gorymdaith yn mynd yn ôl i Faes Parcio'r Twyn, a fydd dan ei sang gyda bwyd, diod a stondinau gwybodaeth, yn barod i ni fwynhau diwrnod llawn hwyl gyda'n Llwyfan Adloniant Pride Caerffili, a noddir gan Unite Wales.

Er y bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu dod ac ymuno yn yr Orymdaith ar y bore, rydyn ni'n dal i ofyn i chi gymryd 2 funud i roi gwybod i ni eich bod yn dod trwy lenwi'r ffurflen isod:

<https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=vGg9Ws-tLkaRgSm0tCsxTYtVyQ7bPgpAgEhGaGlvumIUMzMxOVNJTzk5TkUxWIBWWDFIU E1HNE9QRS4u&lang=cy-GB>

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi anfon e-bost aton ni: cydraddoldeb@caerffili.gov.uk

Gobeithio eich bod chi'n edrych ymlaen at Pride Caerffili gymaint â ni!

Cofiwch ymuno â'n tudalen digwyddiad Facebook a defnyddio #PrideCaerffili i rannu eich postiadau gyda ni: bit.ly/3GZx0nc

Cynllun Gorymdaith Pride Caerffili


Blaen

	Heddlu Gwent Police
	CBSC a Gwesteion
	Samba Galêz
	Noddwyr Pride Caerffili
	Cynghorau Balch
	Ysgolion
	Gwasanaeth Ieuengtid
	Perfformwyr
	Busnesau, Sefydliadau a Chymdeithasau
	Aelodau'r Cyhoedd

Cefn

Sylwch y gall hyn newid yn ddibynnol ar niferoedd.

Llwybr yr Orymdaith



**FFYNIANT
— BRO —**



Dechrau'r Orymadaith

Gofynnwn i bawb geisio cyrraedd erbyn 11:45 fan bellaf, er mwyn i ni gyd fod yn barod i adael yn brydlon am 12pm. Bydd gennym ni stiwardiaid a gwirfoddolwyr ar y safle i'ch helpu chi i fynd i'ch lle wrth i chi gyrraedd, ond gan nad ydyn ni'n gwybod psa mor brysur fydd yr orymdaith, rydyn ni'n eich cynggori chi i gyrraedd yn gynnar, felly bydd mynediad ar gael o 11am.

Bydd lluniaeth ysgafn yn Ysgol Gyfun Martin Sant os oes angen ynghyd â thoiledau, a byddwn ni hefyd yn sicrhau bod digon o gerddoriaeth i'ch paratoi chi ar gyfer yr Orymadaith! Cofiwch ddod â'ch baneri a'ch lliwiau llachar gyda chi i helpu i wneud y diwrnod mor wych a lliwgar â phosib!

Sylwch, ni fydd parcio ar y safle ar gyfer yr orymdaith ac rydyn ni'n disgwyl i ganol y dref fod yn brysur, felly rydyn ni'n annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bo modd.

11:00am – Giatiau'r ysgol yn agor a chofrestru

11:45am – Pawb yn eu safleoedd yn barod i fynd

12:00pm – Bant â ni! Gorymdeithiwn lawr drwy'r dref ar hyd lwybr yr orymdaith

1:00pm – 7:00pm – Adloniant ar y Brif Lwyfan a noddir gan Unite

1:00pm – 6:00pm – Adloniant ar y Bandstand a'r Ardal leuenctid a nodir gan UNSAIN Caerffili